

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 9 Rhagfyr 2020

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 15 RHAGFYR 2020** am **10.00 am** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020 (copi'n amgaaedig).

5 POLISI BUDDION CYMUNEDOL CSDD (Tudalennau 17 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar Bolisi Buddion Cymunedol arfaethedig y cyngor a'r argymhellion wrth gefnogi ei ddefnyddio.

6 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 45 - 148)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

7 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 149 - 154)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

8 DYFARNU CONTRACT CAEL GWARED AR ASBESTOS (Tudalennau 155 - 162)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract gwaith i Gontractwr Cael Gwared ar Asbestos trwyddedig a hynny ar unwaith.

MEMBERSHIP

Y Cyngorwyr

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon

Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd dros fideo gynadledda ddydd Mawrth, 24 Tachwedd 2020 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Alan James, Gwyneth Kensler, Peter Scott, Rhys Thomas ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, Gwasanaethau Democratiaidd ac AD (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG) a Chynllunio, Gwasanaethau Cefn Gwlad a Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Rheolwr Tai a Chynllunio Strategol (AL); Swyddog Arweiniol (Tai Cymunedol (GD); Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes (CB); Cydlynnydd Craffu (RE); Cydlynnydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ) ynghyd â David Wilson (Archwilio Cymru)

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

DALIWCH SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol wahoddiad i arsylwi hefyd.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 Y FARGEN DWF DERFYNOL

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol yr adroddiad i geisio cefnogaeth y Cabinet o'r dogfennau allweddol sydd eu hangen i gyrraedd y Fargen Dwf Derfynol ar gyfer Bargaen Dwf Gogledd Cymru i'w gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y cefndir mewn perthynas â chymeradwyaethau o'r holl bartneriaid yn arwain at y sefyllfa bresennol. Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ymrwmo i gyflawni Cytundeb Bargaen Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru erbyn diwedd 2020 ac roedd y ddogfennaeth berthnasol yn mynd trwy'r prosesau democrataidd ymhob awdurdod lleol. Gofynnwyd i'r Cabinet a'r Cyngor, ynghyd â'r holl bartneriaid, gymeradwyo amryw o ddogfennau a fyddai'n galluogi i'r Fargen Dwf Derfynol gael ei gwblhau.

Pwysleisiodd yr Arweinydd nod y Fargen Dwf i adeiladu economi mwy cynaliadwy a chadarn yng Ngogledd Cymru mewn partneriaeth â'r sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda chymorth £240 miliwn o gyllid gan Lywodraethau'r DU a Chymru dros y 15 mlynedd nesaf. Nod y Fargen Dwf oedd darparu buddsoddiad o hyd at £1.1 biliwn i economi Gogledd Cymru er mwyn creu 3,400 – 4,200 o swyddi newydd a chreu £2 - £2.4 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros erbyn 2036. Darparodd yr Arweinydd gyflwyniad ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus; Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Ad a Chyfraith a Phennaeth Cyllid, gan grybwyll meysydd canlynol y Fargen Dwf -

- y Weledigaeth Dwf a Phortffolio'r Fargen Dwf o fuddsoddiad ynghyd â buddion uniongyrchol i'r rhanbarth, gan gynnwys ffyniant economaidd; creu swyddi o ansawdd gwell a gweithlu medrus, a gwelliannau i safonau byw
- y portffolio o raglenni sy'n ymwneud ag (1) Ynni Carbon Isel; (2) Digidol; (3) Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel; (4) Bwyd Amaeth a Thwristiaeth, a (5) Tir ac Eiddo ynghyd â rhaglenni heb eu hariannu'n uniongyrchol ond a gefnogir mewn perthynas â Sgiliau a Chyflogaeth a Chludiant
- dangos lledaeniad daearyddol y 14 o brosiectau a nodwyd, gyda phob prosiect yn darparu buddion eang ar draws y rhanbarth gan sicrhau newid
- egluro'r prosiectau penodol a nodwyd yn Sir Ddinbych mewn perthynas â (1) Parc Busnes Llanelwy; (2) Hen Safle Ysbyty Gogledd Cymru Dinbych; (3) Prosiect Fferm Carbon Niwtral Llysfasi, a (4) Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan
- manylion am gyfreithlondeb y Cytundeb Bargaen Dwf Derfynol rhwng yr NWEAB a Llywodraethau'r DU a Chymru ar gyfer darparu'r Fargen a gaiff ei arwyddo ar sail achos busnes y portffolio a phump achosion busnes rhaglen

- amlygu'r ystyriaethau ariannol gan gynnwys cost y rhaglen a sut gaiff ei ariannu, gan gynnwys cyfraniadau partner dros dymor o 15 mlynedd ynghyd â chyfraniadau partner blyneddol a'r fethodoleg tu ôl i'r cyfrifiadau a oedd yn dod a Sir Ddinbych rhwng £64,000 - £90,000
- adrodd ar Gytundeb Llywodraethu 2 i fynd â'r bartneriaeth i gam gweithredu'r Fargen Dwf, gan barhau'r model llywodraethu a fabwysiadwyd yng Nghytundeb Llywodraethu 1 a diffinio'r berthynas rhwng y Bwrdd a'i sefydliadau partner, cyfyngiadau'r ddirprwyaeth ac atebolrwydd.

Roedd manylion y Fargen Dwf wedi cael eu craffu yn eang ac yn ddiweddar wedi bod yn destun Gweithdy i Aelodau. Nid oedd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi gallu mynychu'r Cabinet, a gofynnodd i'r Arweinydd ddarllen ei datganiad ar ganfyddiadau craffu yn dilyn ystyried y Fargen Dwf ar 5 Tachwedd. Yn gryno, roedd y Pwyllgor Craffu -

- yn cydnabod er y byddai'r prosiectau wedi'u lleoli mewn ardaloedd amrywiol ar draws y rhanbarth, byddent oll, i ryw raddau, yn elwa'r rhanbarth gyfan
- yn cytuno ei fod yn hollbwysig bod y Fargen yn symud ymlaen er mwyn sicrhau cyllid i ddarparu'r prosiect a gwireddu'r buddion economaidd a ragwelir
- wedi cael sicrwydd bod y Cytundeb Llywodraethu yn ddigon cadarn ac wedi gosod strwythurau i ddiogelu holl bartneriaid gyda threfniadau monitro a chraffu tryloyw er mwyn cynnal atebolrwydd penderfyniadau'r Bwrdd
- wedi bod yn gefnogol o'r egwyddorion a nodwyd yn y Protocol Craffu
- wedi codi pryderon am effaith posibl Covid-19 a Brexit ar brosiectau a ffyniant a chadernid economaidd yr ardal yn y dyfodol, ond cydnabuwyd bod y Bwrdd eisoes wedi nodi'r risgiau hynny ac yn eu monitro; teimlwyd y gallai'r Fargen Dwf ddarparu diogelwch a chefnogaeth yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol o ran hynny
- o'r farn bod y Fargen Dwf yn darparu cyfle gwych i'r rhanbarth wireddu ei photensial economaidd
- yn pwysleisio'r angen, unwaith i'r Cytundeb Bargen Dwf gael ei gymeradwyo, i'r Bwrdd gysylltu ei waith i raglenni eraill o broffil uchel, megis Pwerdy'r Gogledd, er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion i'r rhanbarth.

Ar ran y Pwyllgor Craffu, argymhellodd y Cynghorydd Chamberlain-Jones, bod y Cabinet yn cefnogi'r Fargen Dwf Derfynol ac argymell bod y cynigion o fewn y ddogfen yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Craffu am ei waith caled wrth graffu a herio manylion y Fargen Dwf ac am y sicrwydd a ddaw o'u gwaith.

Yn ystod y drafodaeth, ceisiodd y Cabinet eglurhad pellach o ran elfennau amrywiol y ddogfennaeth ac ymatebodd yr Arweinydd a swyddogion fel a ganlyn -

- cadarnhawyd bod y cread posibl o Gydbwyllgorau Corfforaethol, yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd, wedi cael eu hystyried o fewn y cytundeb cyfreithiol - roedd yn nodi'n benodol, pe byddai'r gyfraith yn newid a'r Cydbwyllgorau Corfforaethol wedi'u ffurfio, roedd y penderfyniad i drosglwyddo'r model presennol i'r Cydbwyllgorau Corfforaethol yn cael ei wneud gan bob un o'r chwe awdurdod lleol yn unigol

- dywedwyd, yn y ddeddfwriaeth ddiwygiedig bydd pŵer i ddau neu fwy o awdurdodau i uno yn wirfoddol, a phe byddai hynny'n digwydd, byddai bob rhwymedigaeth gyfreithiol yr oedd gan bob corff yn unigol cyn iddynt uno, yn disgyn i rwymedigaeth y corff newydd
- Holodd y Cyngorydd Mark Young os oedd angen i'r Cyngor ddatgan cysylltiad mewn unrhyw dir yn eu heiddo sydd wedi cael ei ragnodi ar gyfer datblygiad, o ystyried y byddent yn ennill buddsoddiad sylweddol, a chafodd sicrwydd, fel corff partner, y byddai'r Cyngor yn dal i allu cymryd rhan mewn trafodaethau ac ni fyddai angen datgan unrhyw gysylltiad sy'n rhagfarnu ar y sail hon.
- roedd ymrwymiad gwleidyddol i gyllid y llywodraeth o £240 miliwn ac roedd trafodaethau gyda'r ddau lywodraeth yn parhau ar faterion manwl, heb unrhyw fynegiant y byddai'r ymrwymiad gwleidyddol yn cael ei dynnu'n ôl. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymrwymiad cyfreithiol i ddarparu'r cyllid tan i'r Fargen gael ei arwyddo.
- eglurwyd y cyfrifiadau cyllido ar gyfer cyfraniadau partner gan gadarnhau y bod prosiectau ar draws y rhanbarth yn cael eu cyllido'n hafal, ond ar gyfer prosiectau unigol lle byddai partneriaid penodol yn derbyn mwy o fuddion (adeilad/ased ac ati), disgwylir iddynt dalu am y gofyniad benthyca mewn cysylltiad â'r prosiect hwnnw.
- cydnabuwyd yr anawsterau o sicrhau dyfodol prosiectau penodol dros dymor 15 mlynedd y Fargen Dwf, yn arbennig mewn ardaloedd megis isadeiledd digidol, sydd wedi cael ei nodi fel risg. Derbyniwyd y byddai angen ychydig o hyblygrwydd o fewn rheoli'r rhaglen a'r prosiect gyda rhai addasiadau er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau a fyddai'n cael ei fonitro dros amser, a bydd gan y Cabinet a'r Cyngor rôl o ran hynny. Fodd bynnag, gobeithiwyd y byddai'r prosiectau yn cael sicrhau yn y dyfodol cymaint â phosibl, gyda dull o edrych ymlaen o ran y gofynion yn y dyfodol megis y rhaglen werth a datgarboneiddio, sgiliau a swyddi newydd yn addas i'r oes fodern.

Cydnabu'r Cabinet y broses gymhleth a hir yn arwain at y cam Cytundeb Terfynol a thalodd deyrnged i waith caled pawb ynghlwm gyda'r broses a datblygu trefniadau cadarn wrth fynd ymlaen. Roedd y Cabinet yn fodlon bod y wybodaeth eglur a ddarparwyd yn nhelerau'r portffolio o raglenni a phrosiectau; ystyriaethau ariannol a fforddiadwyedd, a threfniadau llywodraethu wedi dangos bod yr holl elfennau wedi cael eu hystyried a bod sicrwydd wedi cael ei dderbyn o waith craffu. Ychwanegodd y Cyngorydd Thompson-Hill bod y cyllid i ysgwyddo'r costau ychwanegol wedi cael ei ganfod gan ddarparu sicrwydd bod yr elfen ariannol yn gadarn.

Gwahoddodd yr Arweinydd gwestiynau gan aelodau nad oeddent ar y Cabinet, ac ynghyd â'r swyddogion perthnasol, ymatebwyd i'r materion a godwyd fel a ganlyn -

- cytunodd y swyddogion i ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Cyngorydd Meirick Davies ynglŷn â sut oedd y wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn hygyrch
- roedd disgwyliad i'r rhaglen ddigidol gael ei ddarparu yn gynnar o fewn y broses a byddai gwaith yn cael ei gyflawni i ddatblygu capasiti'r sector preifat a fyddai'n cael ei gefnogi gan y buddsoddiad sylweddol arfaethedig yn y maes hwnnw.

- byddai effaith amgylcheddol ac ecolegol y prosiectau penodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosesau statudol o ran caniatâd cynllunio ac roedd y cynigion hefyd wedi cael eu halinio gyda'r nodau lles a datblygiadau addas
- roedd manylion am y dull caffael yn y cynllun busnes troswaol gyda phwyslais ar annog a chefnogi gwell mynediad i BBaChau rhanbarthol a lleol, ac o ystyried y nod i hybu'r economi lleol roedd y cysyniad wedi cael ei adeiladu i mewn i'r cynnig cyffredinol er mwyn sicrhau bod cwmnïau lleol yn elwa ac yn helpu i ddarparu'r buddsoddiad; o ran ôl Brexit, roedd y rheoliadau caffael presennol yn dal i fod yn gymwys a byddai gwaith yn parhau o fewn y cyfyngiadau a pharamedrau cyfreithiol wrth a phryd i'r rheolau newid.
- nid oedd llwybrau beicio wedi cael ei gynnwys fel prosiect penodol o fewn y cynnig, ond byddai'n cael ei drafod ar lefel strategol ar draws y rhanbarth o fewn y rhaglen gludiant, a chafodd yr aelodau eu hatgoffa bod ffynonellau cyllido lleol eraill ar gael i awdurdodau lleol ddarparu disgwyliadau lleol o'r natur hwnnw.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- cymeradwyo yn ffurfiol ac yn argymhell fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Troswaol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau i gyflawni Bargen Dwf Gogledd Cymru fel y sail ar gyfer bod yn rhan o'r Fargen Dwf Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllid Grant gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU;*
- cymeradwyo'n ffurfiol y darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithrediaeth, argymhell fod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol, a'i fod yn benodol yn mabwysiadu dirprwyaethau'r cylch gorchwyl yng "Nghytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 1" ohono fel y sail ar gyfer cwblhau'r Fargen Dwf Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllid Grant gyda Llywodraethau Cymru a'r DU;*
- cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymhell fod y Cyngor yn awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid;*
- cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymhell fod y Cyngor yn argymhell cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gost benthyg tybiannol angenrheidiol er mwyn hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Fargen Dwf, ac i gynnwys darpariaeth o fewn cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r craidd sefydledig a'r cyfraniadau atodol fel y nodir yng Nghytundeb Llywodraethu 2 (ac ym mharagraffau 5.5 a 5.7 yr adroddiad templed a atodir fel rhan o Atodiad 1);*
- bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 yn cael awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel bo'n angenrheidiol i gwblhau'r cytundeb, a*
- bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr Aseiad o'r Effaith ar Les Cyngor Sir Ddinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 2 fel rhan o'i ystyriaethau.*

6 LLYS AWELON CAM 2

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feely adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ryddhau cyfalaf a gytunwyd arno eisoes o £5 miliwn er mwyn cyfrannu at adeiladu cam 2 Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin.

Yn 2010, ar y cyd â Grŵp Cynefin, comisiynodd y Cyngor gyfleuster Gofal Ychwanegol 12 Uned ger Cartref Gofal Awelon. Roedd y Cartref Gofal a Chanolfan Awelon wedi cau yn 2020 i baratoi ar gyfer ail gam y cynllun yn cynnwys 35 o unedau ychwanegol. Byddai'r brydles bresennol ar gyfer cam 1 y datblygiad yn dod i ben a byddai prydles hirdymor newydd yn cael ei chyflwyno i Grŵp Cynefin ar gyfer y safle gyfan. Byddai'r datblygiad yn cymryd dull amgylcheddol cynaliadwy gyda'r golwg o gyflawni graddfa Rhagoriaeth BREEM. Byddai'r prosiect yn creu arbedion i gyllidebau gofal yn y gymuned ac mae manylion cost a budd o'r buddsoddiad o £5 miliwn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Eglurodd y Cynghorydd Bobby Feeley bod yr oedi i symud ymlaen â'r prosiect yn sgil Covid-19 ac yn falch o fod mewn safle bellach i barhau gyda'r datblygiad. Gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne i'r cyfeiriad o fewn yr Asesiad o Effaith ar Les at Cymraeg iaith gyntaf gael ei dynnu o ystyried bod y Grŵp Cynefin yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwbl ddwyieithog. Mewn ymateb i'r cais a sylwadau eraill cytunodd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i newid y cyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn yr Asesiad o Effaith ar Les; cadarnhawyd y trefniadau bwyd ac amser prydau i breswylwyr, a nodwyd tra bo cynlluniau i adleoli'r clinig ar Mount Road, roedd meddygfa fwy arall yn agos ac roedd gan y dref gyfleusterau gofal iechyd ardderchog.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a*
- (b) *cymeradwyo rhyddhau cyfalaf a gytunwyd arno eisoes o £5 miliwn er mwyn cyfrannu at adeiladu cam 2 Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon.*

7 STRATEGAETH DAI A DIGARTREFEDD DDRAFFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas a Bobby Feeley yr adroddiad a'r Strategaeth Dai a Digartrefedd Ddrafft ar y cyd i'r Cabinet ei ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth.

Roedd y Strategaeth Dai yn cael ei adolygu i ffurfio Strategaeth Dai a Digartrefedd newydd ar gyfer y sir a fyddai'r darparu datganiad clir o weledigaeth a nodau'r cyngor am y pum mlynedd nesaf. Roedd sicrhau bod pawb yn cael cefnogaeth i fyw mewn cartrefi oedd yn diwallu eu hanghenion yn flaenoriaeth corfforaethol allweddol a byddai'r Strategaeth ddiwygiedig yn darparu fframwaith ar gyfer holl swyddogaethau perthnasol y Cyngor i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth yn llwyddiannus. Cynigiwyd cadw'r 5 thema allweddol o fewn y Strategaeth Dai bresennol gan ychwanegu thema ar wahân 'Atal a mynd i'r afael â Digartrefedd'. Roedd y Strategaeth ddrafft yn cynnwys cynllun gweithredu newydd wedi'i strwythuro o

amgylch y 6 thema allweddol ac yn nodi'r camau gweithredu i ddarparu'r canlyniadau disgwylidig.

Croesawodd y Cynghorydd Feeley y cysylltiad a wnaed rhwng tai a digartrefedd yn y Strategaeth ddrafft a'r dull a gymerwyd i weithio yn y dyfodol; diolchodd hefyd i'r swyddogion am eu gwaith caled i greu'r ddogfen. Roedd yr Arweinydd hefyd yn cefnogi'r dull a gymerwyd a holodd sut fyddai'r gwaith yn cysylltu â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Ymatebodd y Cynghorydd Mark Young bod y CDLI yn cydfynd â'r Strategaeth a byddent yn llywio ei gilydd. Adroddodd hefyd am ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol a'r trafodaethau cadarnhaol. O ran y camau nesaf, ystyrir tystiolaeth data gan y Grŵp Cynllunio Strategol yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd a fydd yn helpu i lywio'r dyraniadau tai wrth symud ymlaen yn y CDLI. O ran y Strategaeth ddrafft, amlygodd y Rheolwr Tai a Chynllunio Strategol yr ymgynghoriad a gynhaliwyd i hysbysu'r ddogfen. Os caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr, bydd darpariaeth y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael ei oruchwylio a'i monitro gan y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol a bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

Teimlodd y Cynghorydd Meirick Davies y dylai'r Strategaeth adlewyrchu dyheadau'r Cyngor yn y dyfodol megis cynyddu'r amod 10% ar gyfer tai fforddiadwy. Cadarnhaodd y swyddogion bod y cynllun gweithredu yn cyfeirio at gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a byddai'r dull a'r trothwyon presennol ym mholisiau CDLI yn cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith CDLI sy'n codi. Roedd y gofyniad 10% yn cyfeirio at gynlluniau tai'r farchnad agored, ond roedd ystod o ffyrdd oedd yn cyfrannu tuag at dai fforddiadwy gyda'r mwyafrif o dai fforddiadwy yn cael eu cyflenwi drwy landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chymdeithasau tai. Canran cyffredinol o dai fforddiadwy a ddarparwyd o'r tai a adeiladwyd yn 2019/20 oedd 57%. Roedd rhaid i'r gofyniad am dai fforddiadwy a ddarparwyd ar gynlluniau tai'r sector preifat fod yn seiliedig ar hyfywedd a'i ystyried ar y cyd â meini prawf a lles cynllunio eraill megis cyfraniadau addysg neu ecoleg. Pwysleisiodd Mark Young rôl yr CCA i graffu'r data perthnasol er mwyn cytuno â'r ffigwr o dai fforddiadwy yn y sector preifat fel rhan o'r CDLI newydd.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn argymhell mynd a'r Strategaeth Dai a Digartrefedd Ddrafft i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

[Ar y pwynt hwn (11.45 am) cymerodd y pwyllgor egwyl deng munud am luniaeth.]

8 PROSIECT ARCHIFAU AR Y CYD SIR DDINBYCH A SIR Y FFLINT

[Roedd rhaid i'r Arweinydd adael yn ystod yr eitem hon a chymerodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Gadair am weddill y cyfarfod.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet am adeilad Archif Passivhaus pwrpasol newydd arfaethedig yn yr Wyddgrug, er mwyn lletya Gwasanaeth Archifau ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint sydd newydd ei ffurfio a'r cyllid grant cysylltiedig a'r gofynion arian cyfatebol.

Roedd y gwasanaeth archifau ar y cyd wedi'i ffurfio i alluogi'r cynghorau i fodloni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol o ran dogfennau o bwysigrwydd hanesyddol a chreu gwasanaeth gwell a mwy cynaliadwy. Roedd y gwasanaeth ar y cyd yn cael ei weithredu dros ddwy safle ym Mhenarlâg a (Carchar) Rhuthun. Datblygwyd y cais Grant Heritage Horizons Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn ariannu adeilad newydd pwrpasol yn yr Wyddgrug a chynllun gweithgaredd 3 mlynedd cysylltiol. Dewiswyd y safle o astudiaeth ddichonoldeb safle a gynhaliwyd gan ymgynghorydd annibynnol. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r achos ar gyfer yr adeilad newydd; gan roi manylion ystyriaethau ariannol, a chynigion ar gyfer Carchar Rhuthun.

Amlygodd y Cynghorydd Thomas gyfrifoldebau statudol y Cyngor i ddiogelu ei eitemau hanesyddol a'r anawsterau presennol a wynebwyd o ran problemau capasiti, cyflwr y cyfleusterau presennol a'r buddsoddiad sylweddol angenrheidiol wrth symud ymlaen. Byddai'r cynigion yn parhau i ganiatáu presenoldeb yr archifau yn Rhuthun gyda darpariaeth cysylltu-o-bell o holl lyfrgelloedd a fyddai'n cryfhau safle a darparu hygyrchedd i holl drigolion. Roedd ymrwymiad hefyd i wella'r cynnig treftadaeth yng Ngharchar Rhuthun (gan ddefnyddio gofod gwag y gwasanaeth archifau) gyda'r golwg o ddyblu'r 12,000 o ymwelwyr presennol i'r safle. Roedd mynegiannau cadarnhaol o ran y cynnig i Gronfa Heritage Horizon Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ond nid oedd sicrwydd o lwyddiant. Pe bydda'i cynnig yn llwyddiannus, byddai adeilad pwrpasol newydd yn cael ei ddarparu i letya'r gwasanaeth archifau ar y cyd a fydd yn elwa holl gymunedau, gydag ymrwymiad llawn i wella'r ddarpariaeth yn y Carchar.

Trafododd y Cabinet yr argymhellion yn fanwl. Ar y dechrau, roedd anfodlonrwydd o ran y cynigion ar gyfer y gwasanaeth pan cawsant eu cyflwyno i ddechrau, ond roedd mwyafrif y pryderon wedi cael eu datrys ac ar y cyfan roedd y Cabinet yn cefnogi'r argymhellion, yn arbennig o ystyried yr heriau o gadw dogfennau hanesyddol ac arteffactau ynghyd â'r effaith andwyol ar ddarpariaeth y gwasanaeth a'r goblygiadau cost sylweddol pen a fyddai'r argymhellion yn cael eu gwireddu. Er fod anfodlonrwydd am golli'r cyflester yng Ngharchar Rhuthun a symud tu allan i'r sir, roedd y Cabinet hefyd wedi ystyried mai rhannu gwasanaethau oedd y dewis cywir o ran cynaliadwyedd a chyfleoedd moderneiddio i sicrhau bod y dylestswyddau deddfriaethol yn cael eu bodloni ac i gadw hanes a threftadaeth lleol yr ardal. Nodwyd hefyd y byddai'r cynnig yn darparu mynediad ehangach i wybodaeth o fewn Sir Ddinbych trwy'r gwasanaeth llyfrgelloedd ynghyd â phresenoldeb rhan amser yng Ngharchar Rhuthun a gwell mynediad i ysgolion a ddylai annog cynulleidfa fwy. Roedd y Cabinet hefyd yn falch o nodi y cynlluniau gwella ac ehangu Carchar Rhuthun o ganlyniad i hyn a fyddai'n elwa'r sir.

Ymatebodd y Rheolwr Tîm a Gwybodaeth Busnes i'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Mark Young fel a ganlyn -

- tra bod yr adnoddau wedi cael eu rhoi tuag at y cais, cytunwyd bod angen cynllun wrth gefn os na fyddai'r cais yn llwyddiannus a byddai'r gwaith hynny'n dechrau'n fuan
- Byddai'r Gwasanaeth Moderneiddio a Gwella Busnes yn adeiladu cronfa wrth gefn o £65,000 fel cost untro yn unol â'r costau mynegiannol a ddarparwyd er

mwyn symud ymlaen â'r cynlluniau arfaethedig i ehangu'r atyniad treftadaeth yng Ngharchar Rhuthun.
Roedd y Tîm Treftadaeth hefyd yn ceisio ymgeisio am gyllid allanol er mwyn gwella'r cynigion ymhellach.

Gwahoddodd yr Arweinydd gwestiynau/sylwadau gan aelodau nad oeddent yn y Cabinet ac yn ystod y drafodaeth mynegodd y Cynghorwyr Meirick Davies a Gwyneth Kensler eu cefnogaeth am y cynigion o ystyried y byddai'n cadw treftadaeth a dogfennau pwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, roedd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne, er yn derbyn y rhesymeg tu ôl i'r cynigion, yn lleisio pryderon dros golli'r gwasanaeth archifau yn Rhuthun, gan geisio eglurhad a sicrwydd ar nifer o faterion yn yr adroddiad, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer gwella'r atyniad treftadaeth yng Ngharchar Rhuthun, darpariaeth gwasanaeth ar gyfer cymunedau a rôl llyfrgelloedd a'r cynnig ar gyfer ysgolion.

Wrth ymateb i'r rhain a'r materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r Rheolwr Tîm a Gwybodaeth Fusnes -

- gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Safonau Cymraeg Sir Ddinbych yn cael eu cynnal wrth fynd ymlaen o fewn y gwasanaeth ar y cyd gan ddarparu sicrwydd i aelodau o ran hynny
- pwysleisiwyd buddion cynnig llwyddiannus o ran darpariaeth a gwelliannau'r gwasanaeth, ond os na fyddai'r cynnig yn llwyddiannus byddai'r Cyngor yn wynebu heriau mawr o ran cynnal y gwasanaeth a chadw cofnodion hanesyddol a byddai hyn yn golygu costau ychwanegol sylweddol
- eglurwyd nad oedd Carchar Rhuthun yn adeilad addas i letya'r gwasanaeth archifau gyda chostau rhedeg/cynnal a chadw sylweddol ac aneffeithlonrwydd gweithredol, ac roedd y cynigion yn rhoi cyfle i ddefnyddio'r gofod gwag gan y gwasanaeth archifau i ehangu'r atyniad treftadaeth ac roedd trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ran gweithrediad parhaus y safle fel atyniad i dwristiaid
- rhoddwyd gwybod pe byddai'r cais yn llwyddiannus, byddai Sir Ddinbych yn cyfrannu 40% o'r cydran arian cyfatebol a byddai Sir y Fflint yn cyfrannu 60%
- cyfeiriwyd at y cynlluniau ar gyfer darpariaeth allgymorth yng Ngharchar y Berwyn yn Wrecsam, fel rhan o ddull adsefydlu addysgol
- eglurwyd yr astudiaeth ddichonoldeb a gyflawnwyd mewn chwe safle posibl (tri ymhob sir) i sicrhau'r lleoliad gorau ar gyfer yr adeilad newydd, ac fe sefydlwyd mai'r Wyddgrug oedd y dewis gorau ar gyfer y gwasanaeth ar y cyd wrth fynd ymlaen
- cadarnhawyd bod angen gwneud gwaith wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau dyraniad teg o adnoddau i'r gwasanaeth ar y cyd ar draws y ddwy sir, gan gynnwys ysgolion
- darparwyd sicrwydd o ran y gronfa wrth gefn o £65,000 i ariannu'r datblygiadau arfaethedig yng Ngharchar Rhuthun, ac fe gytunodd y Cabinet yn flaenorol i sefydlu ac adeiladu cronfa wrth gefn erbyn 2025 yn benodol ar gyfer y diben hwn
- eglurwyd bod darpariaeth allgymorth parhaol o'r gwasanaethau archifau yn defnyddio'r rhwydwaith llyfrgell fel rhan allweddol o'r gwasanaeth ar y cyd wrth fynd ymlaen, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r llyfrgelloedd yn y ddwy

sir er mwyn cadarnhau darpariaeth gwasanaeth mwyaf priodol gyda nifer o gynigion gwahanol yn cael eu hystyried

- nodwyd y byddai'r archifau ar gael yn ddigidol a bod y cynigion hefyd yn cynnwys presenoldeb archifau rhan amser yng Ngharchar Rhuthun ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth
- cydnabuwyd, er y gall ysgolion elwa o adeilad archifau hyblyg, yn canolbwyntio ar ddysgu, roedd heriau o ran cludiant ac roedd ystyriaeth yn cael ei roi i ddarparu gwasanaethau allgymorth i ysgolion a byddai gwasanaeth ar y cyd yn darparu cyfleoedd gwell.

Ar ddiwedd y drafodaeth, pwysleisiodd y Cynghorydd Wynne ei bryderon o golli'r cyfleuster archifau yn Rhuthun yn gyfan gwbl gydag ansicrwydd o amgylch y cynigion.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) cytuno y caiff y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd gyflwyno cais i gam nesaf (Rownd 1) Cronfa Treftadaeth Gorwelion Cronfa Dreftadaeth y Loteri;*
- (b) nodi'r galw posib ar £2,034,521 o gyllid y Cyngor er mwyn cyflawni'r ganolfan archifau newydd. Mae hyn yn dibynnu os bydd y cais yn llwyddiannus ar gam Rownd 1 o'r broses ymgeisio am grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri a derbyn ffurflen cynnig cyllid, a*
- (c) cymeradwyo'r dull gweithredu o safbwynt Carchar Rhuthun ac estyniad arfaethedig yr atyniad treftadaeth, fel yr amlinellir yn adran 4.8 yr adroddiad.*

9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20).
- rhagwelwyd gorwariant o £5.492 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (nid oedd y gorwariant yn rhagdybio unrhyw grant 'colli incwm' pellach neu geisiadau)
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chyllidebau Model darparu Amgen Hamdden
- manylion o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £4.448 miliwn y cytunwyd arno, gan gynnwys cynnwys arbedion corfforaethol sy'n ymwneud ag adolygiad actiwaraid teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£2 miliwn); 1% arbedion ysgolion (£0.692 miliwn); arbedion gwasanaeth (£1.756 miliwn)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn fanwl, yn enwedig o ran effaith ariannol Covid-19, gan gynnwys y cyllid grant a

gafwyd hyd yma a'r safle ar hawliau i'r cyngor. Hefyd amlygodd y peryglon mewn perthynas ag Incwm o Dreth y Cyngor a'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (CTRS). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi elfen o gyllid ychwanegol ar draws Cymru ar gyfer y CTRS. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid y rhagwelir lleihad o 1.5% yn Incwm o Dreth y Cyngor ac roedd LIC wedi cytuno i edrych i mewn i'r posibilrwydd o gyllido darpariaeth o ran hynny. Hefyd amlygwyd bod risgiau o amgylch cyllidebau gofal cymdeithasol, cludiant ysgol a gwasanaethau gwastraff.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Roedd y Cynghorydd Brian yn awyddus i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o waith y Cyngor i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu er mwyn lleihau'r gorwariant a ragwelwyd a lliniaru effaith Covid-10 ar gyllid yr awdurdod. Cadarnhaodd Aelod Arweiniol Cyllid bod cyllid LIC a gyhoeddwyd yn gynharach yn y flwyddyn wedi cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer colled incwm ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Roedd mwyafrif o gais Chwarter 1 wedi cael ei fodloni ac roedd cais Chwarter 2 yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. Byddai ceisiadau hefyd yn cael eu gwneud ar gyfer Chwarter 3 a 4 ar yr amser priodol a byddai'r awdurdod yn parhau i wneud cais am unrhyw ffynonellau o gyllid ar gael iddynt er mwyn gwneud y mwyaf o incwm.
- Roedd y Cynghorydd Mark Young yn cydymdeimlo â'r rhai oedd yn wynebu anawsterau ariannol a chwestiynodd y dull o adennill Treth y Cyngor. Rhoddwyd sicrwydd bod gan y Cyngor safbwynt cytbwys gyda dull sensitif a hyblyg gan ystyried amgylchiadau unigol. Er mai ychydig iawn o gamau adennill a gymerwyd yn ystod y chwe mis cyntaf, roedd y Cyngor bellach yn ymgysylltu â thrigolion ac yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i dargedu cymorth lle bo angen ac er mwyn sicrhau ei fod yn adennill ôl-ddyledion lle bo'n briodol. Roedd disgwyliad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gwaith adennill.
- mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Davies, cadarnhawyd bod safleoedd yr hen ysgol yng Nghlocaenog a Chyffylliog yn eiddo i'r Cyngor ac roedd defnydd y safleoedd yn y dyfodol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, yn unol â pholisi gwaredu'r Cyngor. O ran Ysgol Llanbedr, roedd egwyddor sylfaenol cyfnewid tir wedi cael ei gytunol fel rhan o'r cynnig gwreiddiol, er mwyn darparu'r ysgol newydd a rhoddwyd diweddariad ar drafodaethau ar gyfer defnydd safle'r hen ysgol yn y dyfodol, eto yn unol â pholisi gwaredu'r Cyngor.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau diwygiadau canlynol –

- Rheolau'r Weithdrefn Contractau - wedi'i symud o fis Rhagfyr i fis Chwefror
- Cynnig Cyllideb Derfynol 2021/22 – Ionawr
- Grant Digartrefedd Covid Llywodraeth Cymru – i'w gadarnhau

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.00.

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 15 Rhagfyr 2020

Aelod / Swyddog Arweiniol Y Cyng. Julian Thompson-Hill,
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac
Asedau Strategol

Awdur yr Adroddiad Karen Bellis, Rheolwr Buddion Cymunedol

Teitl Polisi Buddion Cymunedol CSDd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Polisi Buddion Cymunedol CSDd

1.1. Polisi i gefnogi dull gweithredu Buddion Cymunedol Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn cyflwyno'r Polisi i'r Pwyllgor Craffu Cymunedol ar 22 Hydref, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 27 Tachwedd, a Grwpiau Ardal Yr Aelodau yng nghylched mis Medi/Hydref. Mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi hwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo dogfen y polisi ac yn gwneud argymhellion i gefnogi ei ddefnyddio

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (ynghlwm) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

Polisi Buddion Cymunedol CSDd

- 4.1. Ym mis Mehefin 2019 cymeradwyodd Bwrdd Rhaglen Pobl Ifanc a Thai CSDd y bwriad i greu Canolbwynt Buddion Cymunedol (Canolbwynt BC), ynghyd â chynnwys buddion cymunedol ym mhob contract perthnasol. Bydd y Canolbwynt yn darparu cymorth ac yn galluogi Gwasanaethau i gynnwys Buddion Cymunedol (BC) mewn contractau cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae proses y gylched gomisiynu yn ganolog i gyflawni gwerth gorau a chanlyniadau ar gyfer gwariant CSDd a disgwylir y bydd defnyddio dull gweithredu BC yn gynnar yn y broses yn cyfrannu at godi gwerth gwariant CSDd. Penodwyd Swyddog Canolbwynt BC ym mis Chwefror 2020 a Rheolwr Canolbwynt BC ym mis Mawrth. Bydd Polisi Buddion Cymunedol CSDd yn cefnogi gwaith a chamau gweithredu'r Canolbwynt BC i gyflawni canlyniadau a thargedau a fwriadwyd.
- 4.2. Gwariodd y Cyngor £116m yn 2017/18 felly gyda dychweliad cymedrol o 1% mewn BC gallai hyn gynhyrchu gwerth £1.16m o fuddion newydd bob blwyddyn. Bydd y Polisi hwn yn cefnogi gwaith y Canolbwynt BC a swyddogion y cyngor y mae'n eu cefnogi i gael mynediad at gyllid a buddion tebyg i gryfhau blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol a fydd yn helpu ein cymunedau i fod yn fwy annibynnol a chadarn. Mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau yn uniongyrchol trwy ei weithlu ei hun a thrwy sefydliadau preifat a'r trydydd sector. Mae'r Cyngor yn caffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 4,500 o gyflenwyr, darparwyr gwasanaeth a chontractwyr. Bydd y Polisi BC yn darparu fframwaith ar gyfer budd-ddeiliaid mewnol ac allanol i fod yn weithredol mewn ymgysylltiad parhaus sy'n datblygu gan ein galluogi i fonitro a gwerthuso, dysgu gwersi, mesur effaith a dylunio cynlluniau BC sy'n addas i'r diben yn y dyfodol. Bydd y polisi hefyd yn cefnogi'r Canolbwynt BC i olrhain, monitro ac adrodd am ganlyniadau buddion cymunedol ar draws y cyngor a bod yn fodd o asesu cryfder, bywiogrwydd a pherfformiad Cynllun Corfforaethol 2017-2022. Yn ei dro defnyddir hwn i ffurfio strategaethau ar gyfer gwelliannau a dylanwadu ar benderfyniadau polisi. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o gyflenwi buddion cymunedol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Pobl Ifanc – trwy gyfrannu at fwy o gyfleoedd cyflogaeth, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn bywyd a gwaith trwy wirfoddoli a gweithgareddau cymunedol, a darparu mynediad at gyngor a mentora gyrfaoel effeithiol.
- 5.2. Cysylltu Cymunedau – Cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid i wella allgymorth i gymunedau, targedu'r rheiny sy'n fwy tebygol o ddioddef allgau digidol fel eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r modd i ddefnyddio gwasanaethau digidol
- 5.3. Amgylchedd – Gwella safon bioamrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau pwysig ledled y sir, codi proffil y sir ar gyfer ymwelwyr er mwyn cyfalafu ar botensial economaidd Sir Ddinbych
- 5.4. Cymunedau Cadarn – Cynorthwyo pobl i gynllunio a siapio eu cymunedau, darparu gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd ac sy'n cefnogi annibyniaeth a chadernid pobl, sicrhau bod pobl yn gysylltiedig â siapio a gwella gwasanaethau

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol i fabwysiadu Polisi Buddion Cymunedol CSDd.
- 6.2. Bydd Swyddogion yn gysylltiedig yn y camau cynnar i gael gafael ar gefnogaeth Canolbwynt BC er mwyn cynnwys Buddion Cymunedol yn y cam Achos Busnes.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Gwariodd y Cyngor £116m yn 2017/18 felly gyda dychweliad cymedrol o 1% mewn BC gallai hyn gynhyrchu gwerth £1.16m o fuddion newydd bob blwyddyn. Bydd y Polisi hwn yn cefnogi gwaith y Canolbwynt BC a swyddogion y cyngor y mae'n eu cefnogi i gael mynediad at gyllid a buddion tebyg i gryfhau blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol a fydd yn helpu ein cymunedau i fod yn fwy annibynnol a chadarn.

7.2. Mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau yn uniongyrchol trwy ei weithlu ei hun a thrwy sefydliadau preifat a'r trydydd sector. Mae'r Cyngor yn caffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 4,500 o gyflenwyr, darparwyr gwasanaeth a chontractwyr.

7.3. Bydd y Polisi BC yn darparu fframwaith ar gyfer budd-ddeiliaid mewnol ac allanol i fod yn weithredol mewn ymgysylltiad parhaus sy'n datblygu gan ein galluogi i fonitro a gwerthuso, dysgu gwersi, mesur effaith a dylunio cynlluniau BC sy'n addas i'r diben yn y dyfodol. Bydd y polisi hefyd yn cefnogi'r Canolbwynt BC i olrhain, monitro ac adrodd am ganlyniadau buddion cymunedol ar draws y cyngor a bod yn fodd o asesu cryfder, bywiogrwydd a pherfformiad Cynllun Corfforaethol 2017-2022. Yn ei dro defnyddir hwn i ffurfio strategaethau ar gyfer gwelliannau a dylanwadu ar benderfyniadau polisi.

7.4. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o gyflenwi buddion cymunedol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Pwyllgor Craffu Cymunedol, 22 Hydref. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi nodau ac amcanion y Polisi

8.2. Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), 27 Tachwedd. Ni wnaeth yr UDA unrhyw newidiadau i'r Polisi ac awgrymodd y dylid canolbwyntio ar allgymorth i reolwyr canol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Dengys Adran 6 nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Gan nad oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i geisio, tybir y bydd unrhyw effaith yn cael ei gadw o fewn cyllidebau presennol.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Community Benefits Policy

Denbighshire County Council Community Benefits Policy

Contents

Purpose and Scope	3
Background.....	3
Creation of Community Benefit Hub	5
Community Benefits within DCC.....	5
Welsh Government - definition of Community Benefits	6
Incorporating community benefits into DCC Contracts.....	6
Core Community Benefits – Evaluated.....	7
None Core Community Benefits - mandatory but not evaluated	8
Voluntary Community Benefits	8
Community Benefits Monitoring and Reporting.....	8
Appendix 1. Section 106 agreements	10

Denbighshire County Council Community Benefits Policy

Purpose and Scope

“Enabling Communities to build resilience and shape their own futures”

This policy applies to all relevant commissioning and procurement activities undertaken by Denbighshire County Council. Officers are expected to consider the inclusion of Community Benefits at the start of the commissioning cycle. Further help and advice is available from the Community Benefits Hub or by contacting Karen.Bellis@denbighshire.gov.uk .

Background

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 requires public services to work with people, communities and each other to tackle challenges Wales faces now and in the future. The Act’s aim is to improve the long term social, environmental and economic well-being of Wales. It has been used to inform, and complements, our [Corporate Plan 2017–2022](#), strategies, and corporate values. Denbighshire County Council (DCC) is committed to maximising Community Benefits in contract and service delivery. Going forward, the application of this Policy will be driven and supported by the DCC Community Benefit Hub (CB Hub).

This policy is based on the following principles:

- To consider the inclusion of Community Benefits in all relevant contracts and maximise outcomes through the use of voluntary Community Benefits
- To increase the Community Benefit outcomes generated through the inclusion of Community Benefit requirements within works, services and goods specifications
- To review and monitor the impact of Community Benefit activity, and to report via the Corporate Procurement Annual Report; and to continually strive to improve our performance.

Denbighshire County Council Community Benefits Policy

- To minimise the impact, and maximise the benefits, that our work has on the environment and people around us.
- To integrate our Community Benefits considerations into all our business decisions.

In developing our policy for the first time we aim to deliver gradual but continuous improvements in our performance every year. As a result, our approach will continue to evolve as lessons are learned along the way. This Policy will be updated as per introduction of any new applicable legislation, and will be reviewed through lessons learned, every 3 years.

This Policy is relevant to the development and provision of Community Benefits aligned to DCC Corporate Plan via three key routes:

- **Economic Responsibility** - focusing on practices that facilitate the long-term growth of the County, whilst also meeting the standards set for ethical, environmental practices within the council.
 - The [Economic and Community Ambition Strategy 2013-2023](#) sets out our ambitions for Denbighshire's local economy and benefits that we expect to achieve for our residents.
 - The [Conwy and Denbighshire Public Service Board \(PSB\) Wellbeing Plan 2018 – 2023](#) sets out the local objectives to improve the economic, social, cultural and environmental well-being for the area by working to achieve the 7 national well-being goals.
- **Environmental sustainability initiatives** - generally focusing on the following areas: limiting pollution where possible, reduction of carbon footprint, increasing carbon sequestration and biodiversity improvement. As awareness of environmental issues increases, organisations and businesses that take proactive steps to reduce air, land and water pollution can increase their reputation as good corporate citizens, while also benefiting society as a whole. In July 2019 DCC declared a climate and ecological emergency – committing the organisation to achieve net carbon zero, and be ecologically positive, by 2030. Welsh Government (WG) Policy: Local Authorities (LAs) must be carbon neutral by 2030, [Climate change strategy](#)

Denbighshire County Council Community Benefits Policy

[for Wales, Low carbon Delivery Plan](#) this includes carbon emissions from DCC's supply chain and the Council is required to report its emissions to WG each year.

- **Social initiatives** – these include the donation of time, money and/or resources to charities and organisations at local, national or international levels.

Whilst the names Community Benefits, and social value or requirements, are interchangeable, the term 'Community Benefits' will be used throughout this policy. This also will avoid confusion with Section 106 agreements, subject to the Town & Country Planning Act 1990, which enables inclusion of 'social requirements' as a condition of planning consent. (See Appendix 1)

Creation of Community Benefit Hub

In June 2019 the DCC Programme Board for Young People and Housing approved the creation of the Community Benefits Hub, along with the inclusion of community benefits in all relevant contracts. The inclusion of community benefits clauses will be considered within relevant grants made by DCC. The Hub will provide support, and enable Services to include CBs in contracts at the earliest opportunity. The commissioning cycle process is central to achieving best value and outcomes for DCC spend and it is to be expected that by applying a CB approach at an early stage this will go toward increasing value for DCC spend.

Community Benefits within DCC

Long-term financial sustainability requires close collaborative and partnership working with local, private and third sector organisations, and it is integral to the DCC approach. The effect of joining policies and resources together has the potential for greater impact than when these when delivered independently. Working together with a wide range of organisations can be expected to increase innovation, efficiency and value whilst delivering an equal or improved service.

Denbighshire County Council Community Benefits Policy

DCC [Procurement Policy](#) incorporates the Welsh Government definition and guidance, as below:

Welsh Government - definition of Community Benefits

Community benefits is the term that has been adopted by Welsh Government in their published guidance "[Community Benefits Guidance Delivering Maximum Value for the Welsh Pound](#)". This provides formalised guidance and toolkits together with an overview of the type of Community Benefits the public sector should be seeking to deliver.

Completing the [measurement tool kit](#) meets the current reporting requirements in the procurement policy statement.

Incorporating community benefits into DCC Contracts

The CB Hub will co-ordinate, produce and signpost to training, support and guidelines that will be available to Services on how to include social, economic and environmental requirements, as Community Benefits, when tendering DCC contracts. Training and support will also be provided for contract managers on monitoring the delivery of all such Community Benefits. A bespoke community benefit measurement portal will be introduced to capture such benefits, and support reporting on the outcome and impacts of those benefits.

In line with this Policy the CB Hub will:

- Design and deliver appropriate training and support to Services and contract managers
